**Cais am ddiwygiad nad yw'n berthnasol yn dilyn rhoi caniatâd cynllunio**
*Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*

Dylai'r ffurflen hon gael ei defnyddio i wneud cais am ddiwygiad nad yw'n berthnasol neu ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i ganiatâd cynllunio sy'n bodoli eisoes.

Yn dilyn rhoi caniatâd cynllunio, efallai y bydd angen gwneud diwygiadau i'r caniatâd. Lle nad yw'r rhain yn berthnasol, gall y ffurflen hon gael ei defnyddio i wneud cais. Bydd p'un a yw diwygiad arfaethedig yn berthnasol ai peidio yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos - gall newid nad yw'n berthnasol mewn un achos fod yn berthnasol mewn un arall. Nid oes diffiniad statudol o ddiffyg perthnasedd, ond rhaid i'r ACLl fod yn fodlon nad yw'r diwygiad a geisir yn berthnasol er mwyn rhoi caniatâd. Os nad ydych yn siŵr, gallech geisio cyngor cyn gwneud cais oddi wrth eich awdurdod cynllunio lleol. Am fanylion, ewch i wefan eich awdurdod cynllunio lleol.

Os bydd cais a wneir ar y ffurflen hon yn llwyddiannus, ni chaiff caniatâd cynllunio newydd ei greu. Bydd y caniatâd gwreiddiol yn parhau mewn grym a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r llythyr penderfyniad ar y cais hwn.